# Diwygio’r Ddeddf Hawliau Dynol: Mesur Hawliau Modern

## Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad a gafodd ei lansio gan Lywodraeth y DU ar 14 Rhagfyr 2021

## Rhagair Gweiniddgol

Mae Llywodraeth Cymru yn erbyn y cynnig i gyflwyno “Mesur Hawliau” yn lle Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r cynnig hwn, ynghyd â llawer o'r cynigion eraill a amlinellir yn ymgynghoriad Llywodraeth y DU, yn gwbl groes i ymrwymiad Llywodraeth Cymru, a adlewyrchir mewn polisi ac ymarfer, i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Ym marn Llywodraeth Cymru, nid cynigion ar wahân na hunangynhwysol yw'r rhain, ond yn hytrach, o edrych arnynt gyda'i gilydd ac yng nghyd-destun Biliau eraill, mae'n ymgais bendant i leihau hawliau pobl Cymru a'r DU.

Er ei bod yn gwrthwynebu'n chwyrn ac yn ddiamod, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati serch hynny i ymateb i'r ymgynghoriad hwn mewn modd adeiladol, er iddo gael ei gyhoeddi ychydig cyn y Nadolig, nad oedd yn amseru da, ac er na fu unrhyw ymgysylltu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ymlaen llaw, a oedd yn siomedig. Mae ein hymgysylltu wedi cynnwys cyfarfod â'r Dirprwy Brif Weinidog ar 10 Chwefror, a thrafodaeth â'n rhanddeiliaid ni ein hunain, Llywodraethau Datganoledig eraill a Chymdeithas Sifil ledled y DU. Ar ôl mynegi ein pryderon cychwynnol mewn Datganiad ar 12 Ionawr, rydym wedi mynd ati'n gyson i wneud ein barn yn glir, sef, nad yw hawliau dynol yn anostwng a'u bod yr un mor gymwys i bawb, a dylai barhau i fod felly.

Gwyddom fod eraill o'r un farn â ni, gan gynnwys Llywodraeth yr Alban, Liberty, Amnesty a Chymdeithas y Gyfraith. Amlinellodd Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban ein pryderon cyffredin mewn llythyr a anfonwyd at yr Arglwydd Ganghellor ar 2 Mawrth. Mae'r ymateb hwn, yn ogystal ag ail-bwysleisio’r pryderon hynny, yn canolbwyntio'n bennaf ar oblygiadau'r cynigion i Gymru a nodau polisi Llywodraeth Cymru.

Credwn mai nawr yw'r amser i gymryd safiad, er mwyn atgyfnerthu a hyrwyddo hawliau dynol. Yn 2022, mae Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig yn cynnal y pedwerydd Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol o'r ffordd mae'r DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y broses hon, gan dynnu sylw at y cynnydd a wnaed yng Nghymru ers y cylch diwethaf yn 2016, y caiff peth ohono ei amlinellu yn yr ymateb hwn. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, sy'n cymryd cam yn ôl, yn peri'r risg o fwrw'r broses bwysig iawn hon i'r cysgod, ar adeg pan ei bod hi'n bwysicach nag erioed i'r DU gyfan gael ei gweld yn dod ynghyd i amddiffyn hawliau dynol ledled y byd.

**Mick Antoniw AS – Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

**Jane Hutt AS – Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**

## Crynodeb Gweithredol

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998 mewn pedair prif ran:

**Pwysigrwydd hawliau dynol yng Nghymru**

Mae'r adran ragarweiniol hon yn tynnu sylw at fethiant yr ymgynghoriad i gydnabod a mynd i'r afael â materion datganoli, ac mae'n nodi'r ffordd y mae hawliau dynol yn gyffredinol, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi bod wrth wraidd datganoli yng Nghymru. Mae llywodraethau Cymru yn olynol wedi ystyried bod hawliau'r Confensiwn yn rhan annatod o ddatganoli. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i groesawu, dathlu ac adeiladu ar hawliau ac amddiffyniadau'r Confensiwn a roddir ar bawb yng Nghymru.

Mae hawliau dynol yn rhan sylfaenol o ystod eang o ddeddfwriaeth yng Nghymru, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.
- Daeth dyletswydd y sector cyhoeddus ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021.

**Polisi ac ymarfer ledled Cyrmu.**

Gan adeiladu ar y sylfaen ddeddfwriaethol hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o bolisïau, rhaglenni a chanllawiau sydd hefyd yn adeiladu ar y Ddeddf Hawliau Dynol a hawliau'r Confensiwn. Mae ein hymateb yn tynnu sylw at yr enghreifftiau canlynol:

- Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol – Cymru Wrth-hiliol yn seiliedig ar werthoedd gwrth-hiliaeth, ac mae'n galw am ddim goddefgarwch mewn perthynas â hiliaeth o bob math.
- Mae Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, yn adeiladu ar ein Fframwaith presennol ar gyfer Gweithredu ar Anabledd ac mae'n tynnu sylw at effaith y pandemig ar bobl anabl.
- Mae Y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ym mhob rhan o fywyd cyhoeddus.
- Mae gan Gymru weledigaeth i fod yn Genedl Noddfa. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth y gallwn i roi croeso cynnes i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a gefnogir yn gryf gan holl awdurdodau lleol Cymru.
- Mae Gwasanaeth Cynghori ar Bopeth yr UE wedi'i ymestyn i fis Mawrth 2022.
- Mae ein Rhaglen Cydlyniant Cymunedol wedi bod ynghlwm wrth adsefydlu dinasyddion Affganistan a gwasgaru lloches dros y misoedd diwethaf.

- Nod y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yw sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw.

Bwriadwn fynd ymhellach. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a'r Confensiwn ar gyfer Dileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod. Gwnaeth ein hymchwil ym maes Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru archwilio materion cysylltiedig ac mae'n dangos y ffordd ymlaen. Bydd ein hymateb i'r adroddiad hwn yn llywio ein holl gamau gweithredu yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Chwe phrif bryder Llywodraeth Cymru am y cyngion hyn**

**Yn gyntaf,** mae cynigion Llywodraeth y DU yn dangos diffyg gweledigaeth. Mae'r ymgynghoriad yn colli cyfle i ystyried ehangu hawliau cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn anwybyddu un o brif argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol a arweiniwyd gan Syr Peter Gross, lle nodir nad diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol sydd angen ei wneud ond yn hytrach cyflwyno rhaglen effeithiol o addysg ddinesig a chyfansoddiadol mewn ysgolion, prifysgolion ac addysg oedolion, sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol.

**Yn ail,** nid ystyriwyd datganoli i raddau digonol. Mae'n gwbl annerbyniol nad yw'r ymgynghoriad yn cynnwys fawr ddim ar ddatganoli'n gyffredinol, nac ar Gymru'n benodol. Dim ond unwaith y caiff Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ei chrybwyll yn yr ymgynghoriad, er gwaethaf pwysigrwydd hawliau dynol i'r setliad datganoli. Mae ein hymateb yn archwilio tri chynnig penodol a fyddai'n debygol o gael effaith ar faterion datganoledig: ystyr "hawliau'r Confensiwn", awdurdodau cyhoeddus a dehongli deddfwriaeth a rhwymedïau

**Yn drydydd,** mae cyfraniadau cadarnhaol y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn wedi cael eu bychanu. Mae'n siomedig bod Llywodraeth y DU fel petai wedi anwybyddu cryn dipyn o'r dystiolaeth gadarnhaol a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol. Yn hytrach, mae'r dystiolaeth a geir yn yr ymgynghoriad yn unochrog iawn.

**Yn bedwerydd,** ymddengys fod cynigion yr ymgynghoriad wedi'u cynllunio i gyfyngu ymhellach ar gael cyfiawnder, gan ei gwneud hi'n fwy anodd byth i bobl agored i niwed a'r rheini heb bŵer. Mae hefyd yn bwysig edrych ar y cynigion hyn yng nghyd-destun newidiadau deddfwriaethol arfaethedig eraill, megis y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau a Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd. Gyda'i gilydd mae'r trywydd a ddilynir yn bryderus iawn.

**Yn bumed,** mae'r cynigion hyn yn targedu pobl agored i niwed a phobl ddifreintiedig yn annheg, ac ymddengys eu bod yn glastwreiddio neu'n lleihau hawliau rhai grwpiau. Maent hefyd yn ceisio gwahaniaethu rhwng pobl neu achosion "haeddiannol" a phobl neu achosion "anhaeddiannol".

**Yn chweched,** ni chaiff llawer o'r cynigion eu hategu gan dystiolaeth, neu defnyddir tystiolaeth mewn ffordd annheg neu amhriodol, gan ddibynnu ar achosion eithafol i gyfiawnhau newid a cham-gynrychioli'r ffordd y mae llysoedd y DU wedi ymddwyn

mewn modd cymesur a chyfrifol ran amlaf wrth gymhwyso cyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol gan barchu cyfreithiau'r DU yn llawn.

**Ymatebion i’r cwestiynau yn yr ymgynghoriad**

Rydym wedi darparu ymatebion cryno i gwestiynau'r ymgynghoriad, yn bennaf er mwyn atgyfnerthu'r prif negeseuon yn y rhannau eraill o'n hymateb.

## Pwysigrwydd Hawliau Dynol yng Nghymru

Yn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth y DU yn cynnig diddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a chyflwyno Mesur Hawliau'r DU yn ei lle. Mae newid Deddf Hawliau Dynol 1998 yn mynd at wraidd y setliad datganoli. Man lle mae datganoli democrataidd a hawliau dynol wedi'u rhyngblethu ers dau ddegawd.

Mae'n gwbl annerbyniol ac yn fethiant difrifol, er gwaethaf y pwysigrwydd hwn, nad yw'r ymgynghoriad yn cynnwys fawr ddim ar ddatganoli'n gyffredinol, nac ar Gymru'n benodol. Dim ond unwaith y caiff Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ei chrybwyll yn yr ymgynghoriad, ac ni chyfeirir at y Senedd na Gweinidogion Cymru o gwbl, er gwaethaf pwysigrwydd hawliau dynol i'r holl Lywodraethau Datganoledig.

I gywiro hyn, cred Llywodraeth Cymru ei bod yn hynod bwysig gosod y cyd-destun yng Nghymru.

**Hawliau dynol a’r setliad datganoli**

Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, mae hawliau dynol wedi bod wrth wraidd datganoli yng Nghymru. Fel yr eglurwyd gan Gwnsler Cyffredinol Cymru mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn rhan annatod o ddemocratiaeth Cymru.[1] Mae llywodraethau olynol Cymru nid yn unig wedi bod o blaid hawliau dynol ond maent hefyd wedi ceisio eu hatgyfnerthu a'u hyrwyddo yng Nghymru.

Mae hawliau dynol wedi cael y lle blaenaf yn setliad datganoli Cymru. O'r cychwyn cyntaf yn 1998, gwnaeth y setliad datganoli cyntaf ar ffurf Deddf Llywodraeth Cymru 1998 hi'n glir bod yn rhaid i ddeddfwriaeth fod yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.[2] Pan gafodd y setliad hwnnw ei ddisodli gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, parhaodd hawliau'r Confensiwn i gael y lle blaenaf yn y prawf cymhwysedd deddfwriaethol. Yn unol â hynny, roedd darpariaeth y tu allan i gymhwysedd

---

[1] Datganiad Ysgrifenedig: Cynnig Llywodraeth y DU i Ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998 (12 Ionawr 2022) | LLYW.CYMRU

[2] Adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, sydd wedi'i diddymu bellach.

[3] Adran 108(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd wedi'i diddymu bellach.

[4] Fel y'i nodwyd yn ei friffiad ar gyfer yr Academi Brydeinig “Human Rights from the perspective of devolution in Wales.”

deddfwriaethol y Cynulliad ar y pryd os nad oedd yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.[3] Pan gafodd y setliad hwnnw ei addasu i newid y setliad datganoli o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau, ni newidiodd y sefyllfa o ran hawliau'r Confensiwn, fel y'i hadlewyrchir yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, ni ellir tanamcangyfrif pwysigrwydd hawliau'r Confensiwn yng Nghymru. Fel y dywedodd yr Athro Thomas Glyn Watkin, mae hawliau'r Confensiwn yn "*an essential reference point in defining the scope of the powers of the National Assembly*".[4]

Mae llywodraethau Cymru yn olynol wedi ystyried bod hawliau'r Confensiwn yn rhan annatod o ddatganoli sydd wedi bod yn sail i ddeddfwriaeth a pholisi yng Nghymru, ac sy'n parhau i fod yn sail i hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i groesawu, dathlu ac adeiladu ar hawliau ac amddiffyniadau'r Confensiwn a roddir ar bawb yng Nghymru.

**Y cyd-destun deddfwriaethol ehangach**

Mae hawliau dynol eisoes yn rhan sylfaenol o ystod eang o ddeddfwriaeth yng Nghymru, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod cynaliadwyedd wrth wraidd penderfyniadau cyhoeddus, cam a ddisgrifiwyd gan y Cenhedloedd Unedig fel model i ranbarthau a gwledydd eraill.
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch y canlyniadau llesiant i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd i roi "sylw dyladwy" i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, ac yn wir, ofalwyr sy'n oedolion y mae arnynt angen cymorth. Mae dyletswydd gyfatebol mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth plant a gofalwyr ifanc - i roi "sylw dyladwy" i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn ogystal, mae Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl sydd angen gofal a/neu gymorth roi "sylw priodol" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.
- Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cyflwyno system gyfreithiol newydd sy'n corffori hawliau plant a phobl ifanc, gan roi effaith i egwyddorion yr un Confensiwn Cenhedloedd Unedig.
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn pryd bynnag y maent yn arfer eu swyddogaethau.

---

[5] Gweler erthygl 2(a) o Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cychwyn Rhif 15) (Cymru) 2021.

- Daeth dyletswydd y sector cyhoeddus ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol, yn Rhan 1 (anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021.[5] Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae toreth o wybodaeth wedi'i datblygu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddyletswydd, ac mae tudalen we benodol wedi'i datblygu i ddarparu'r wybodaeth hon.

## Polisi ac ymarfer ledled Cymru

Gan adeiladu ar y sylfaen ddeddfwriaethol hon, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno amrywiaeth o bolisïau, rhaglenni a chanllawiau sydd hefyd yn adeiladu ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a hawliau'r Confensiwn.

- Mae dileu hiliaeth a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol bob amser wedi bod yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru. Mae ein **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol - Cymru Wrth-hiliol** yn seiliedig ar werthoedd gwrth-hiliaeth, ac mae'n galw am ddim goddefgarwch mewn perthynas â hiliaeth o bob math. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i gyd-gynhyrchu fersiwn derfynol y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Bwriedir cyhoeddi'r Cynllun yn nes ymlaen eleni.
- Yn sgil tystiolaeth gynyddol, gwnaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol gomisiynu aelodau o'n Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl i archwilio effaith ddifrifol y pandemig ar bobl anabl. Mae'r adroddiad a ddeilliodd o hynny, Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, yn adeiladu ar ein Fframwaith presennol ar gyfer Gweithredu ar Anabledd. Mae'r Prif Weinidog bellach wedi sefydlu Tasglu wedi'i arwain gan y Gweinidog i weithio i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a danlinellwyd yn yr adroddiad, ar y cyd â'n partneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.
- **Y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig.** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu amrywiaeth ym mhob rhan o fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag chwarae rhan mewn democratiaeth leol drwy sefyll am swydd etholedig. Gyda mwy nag 8,000 o gynghorwyr mewn 735 o gynghorau tref a chymuned, bydd y gwaith o ehangu'r Gronfa hon yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl anabl gyflawni eu nod o chwarae rhan mewn democratiaeth leol er mwyn cefnogi eu cymunedau.
- Mae gan Gymru weledigaeth i fod yn **Genedl Noddfa**. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth y gallwn i roi croeso cynnes i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y byrdymor, gan gydnabod y bydd ein cymunedau, yn ddiau, yn well eu byd oherwydd eu sgiliau a'u profiadau. Mae hyn yn bwysicach byth yn sgil yr hyn sy'n digwydd yn Wcráin ar hyn o bryd. Mae pob awdurdod

[5] Gweler erthygl 2(a) o Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cychwyn Rhif 15) (Cymru) 2021.

lleol yng Nghymru eisoes yn cymryd rhan yn y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid a'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, ac mae wedi cynnig cymorth i ddinasyddion Affganistan sy'n cael eu hadsefydlu yn y DU.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu **Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yr UE** tan fis Mawrth 2022. Bydd hyn yn sicrhau bod dinasyddion sydd wedi methu dyddiad cau Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a'r rhai sydd angen gwneud cais am statws preswylydd sefydlog ar ôl cael statws preswylydd cyn-sefydlog yn flaenorol, yn parhau i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.
- Mae ein **Rhaglen Cydlyniant Cymunedol** yn ariannu wyth tîm ledled Cymru i ddarparu cymorth rheng flaen i gymunedau, gan gynnwys ymgysylltu mwy uniongyrchol er mwyn helpu i fonitro a lleddfu tensiynau, yn ogystal ag ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth parhaus ynghylch troseddau casineb. Mae gwaith y Rhaglen Cydlyniant wedi bod yn hanfodol i'n helpu i ddatblygu ymrwymiadau llywodraeth leol i chwarae rhan yn y gwaith o adsefydlu dinasyddion Affganistan a gwasgaru lloches dros y misoedd diwethaf.
- Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i atgyfnerthu ac ehangu'r **Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref er mwyn sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw. Mae ein llinell gymorth Byw Heb Ofn yn wasanaeth 24/7 am ddim i bawb sy'n dioddef ac yn goroesi cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r rhai sy'n agos iddynt, gan gynnwys teulu, ffrindiau a chydweithwyr.

Yn sicr, nid yw'r camau hyn, sydd eisoes wedi eu cwblhau neu sy'n mynd rhagddynt, yn cynrychioli ein holl uchelgeisiau o ran cryfhau a hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a'r Confensiwn ar gyfer Dileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod.

Rydym yn edrych ar ddilyn trywydd cyfannol, megis Bil Hawliau Dynol Cymru, yn ogystal â chamau posibl eraill o ran meysydd penodol, gan gynnwys hawliau plant, pobl hŷn a phobl anabl. Archwiliodd ein hymchwil ym maes Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, a gomisiynwyd ar 2 Ionawr 2020 ac a gyhoeddwyd ar 26 Awst 2021, amrywiaeth o faterion cysylltiedig. Cafodd yr ymchwil ei harwain gan Brifysgol Abertawe, ar y cyd â Phrifysgol Bangor, Diverse Cymru a Cymru Ifanc. Mae'r adroddiad yn dangos y ffordd o ran diogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol unigolion a chymunedau yng Nghymru, a gall helpu i lywio ein gwaith yn y dyfodol. Mae ein hymateb i'r argymhellion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn llywio ein holl gamau gweithredu yn y maes hwn yn y dyfodol.

# Prif bryderon Llwodraeth Cymru

## Y prif breeder cyntaf: Diffyg Gweledigaeth

Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y DU wedi ymrwymo o hyd i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae Llywodraeth Cymru yn hynod siomedig na fydd Llywodraeth y DU "*yn ceisio ychwanegu categorïau newydd eang o hawliau, mewn meysydd megis polisi economaidd neu gymdeithasol".*[6]

Mae'r ymgynghoriad yn colli cyfle i ystyried ehangu hawliau cymdeithasol ac economaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiogelu hawliau pobl Cymru, drwy atgyfnerthu hawliau presennol yn ogystal â chymryd camau newydd sbon i ddiogelu pobl agored i niwed, trechu tlodi a meithrin cydlyniant cymunedol.

Hefyd mae'r ymgynghoriad yn methu â mynd i'r afael ag un o argymhellion allweddol yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol. Ym Mhennod 1 o'r ddogfen honno, argymhellir "serious consideration should be given by Government to developing an effective programme of civic and constitutional education in schools, universities and adult education. Such a programme should, particularly, focus on questions about human rights, the balance to be struck between such rights and individual responsibilities."[7] Mae Llywodraeth Cymru o blaid yr argymhelliad hwn ac mae wedi cyflwyno newidiadau yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae addysg hawliau dynol yn thema drawsbynciol yn y Cwricwlwm i Gymru a gwna gyfraniad pwysig wrth gefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus, sef un o bedwar diben y cwricwlwm. Mae'n cefnogi dysgwyr i ddeall o le y daeth eu hawliau; datblygu gwerthoedd rhag-gymdeithasol ac agweddau rhag-gymdeithasol tuag at eraill, a defnyddio eu hawliau nhw a pharchu hawliau eraill. Mae dysgu am, drwy ac ar gyfer hawliau dynol hefyd yn annog gwaith ymholi a dadansoddi, llunio dadleuon, gwneud penderfyniadau, cydweithio, gwerthuso, ac ymddwyn mewn ffyrdd sy'n seiliedig ar werthoedd.

## Yr ail brif bryder: Ni chaiff Datdanoli ei ystyried yn ddigonol

Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, mae hawliau dynol wedi bod wrth wraidd datganoli yng Nghymru. Yn yr adran flaenorol eglurwyd pwysigrwydd hawliau dynol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn hynod siomedig nad yw datganoli wedi cael ei ystyried yn ddigonol yn yr ymgynghoriad. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl mwy.

Mae'r ymgynghoriad yn ddogfen hir. Mae prif ran y ddogfen yn cynnwys 318 o baragraffau. Ond eto i gyd, dim ond 15 o'r paragraffau hynny sy'n ymwneud â

[6] Gweler para 185 o'r ymgynghoriad.

[7] Gweler tudalen 7 o'r ddogfen yn y ddolen ganlynol: The Independent Human Rights Act Review 2021 (publishing.service.gov.uk)

datganoli, a dim ond 10 sy'n gymwys i Gymru a'r Alban. Gan droi at y paragraffau hynny, nid oes ynddynt unrhyw gynnwys gwaetha'r modd. Y pennawd cyntaf ar dudalen 13 yw "*Hawliau dynol o dan setliadau datganoli'r DU*". Ond dim ond 8 paragraff a geir, ac mae hanner ohonynt yn ymwneud â'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon. Yr ail bennawd, ar dudalen 77, yw "*Perthnasedd i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon*". Dim ond 5 paragraff byr a geir yma, ac unwaith yn rhagor maent yn brin o fanylion.

Mae Cwnsler Cyffredinol Cymru eisoes wedi ei gwneud hi'n glir bod "an important constitutional issue at stake" ac yr ymddengys fod yr ymgynghoriad yn codi materion arwyddocaol o ran "the rule of law and the role of the Courts in the application of the law relating to human rights."[8]

Mae'r Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol, yn wahanol i'r ymgynghoriad, wedi cydnabod pwysigrwydd hawliau dynol yng nghyd-destun datganoli. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dyfyniad gan yr Athro Jeff King yn y ddogfen honno "My conclusions are … that weakening the overall scheme of the Act risks upsetting devolution arrangements at an already delicate time."[9]

Mae tri chynnig sy'n debygol o gael effaith o ran materion datganoledig: ystyr "hawliau'r Confensiwn", awdurdodau cyhoeddus a dehongli deddfwriaeth a rhwymedïau.

***Ystyr "hawliau'r Confensiwn"***

Cynigir mai testun yr hawliau eu hunain ddylai fod yn fan cychwyn ar gyfer dehongliad y llysoedd o hawliau, ac y gellid cyfeirio'r llysoedd yn benodol i ystyried y darpariaethau statudol eraill a'r gyfraith gyffredin yn gyntaf.[10] Ymhellach, o dan opsiwn 1, ni fyddai'n ofynnol i lysoedd domestig ddilyn na chymhwyso unrhyw ddyfarniad neu benderfyniad gan Lys Hawliau Dynol Ewrop neu, o dan opsiwn 2, byddai'n ofynnol i'r llysoedd ddilyn cyfraith achosion y llysoedd neu dribiwnlysoedd domestig ond gallant ystyried datblygu unrhyw hawl debyg dan gyfraith gyffredin y DU neu ddyfarniad neu benderfyniad gan unrhyw awdurdodaeth cyfraith gyffredin arall neu Lys Hawliau Dynol Ewrop.[11]

O ran hawliau'r Confensiwn amodol a chyfyngedig, mae'r ddogfen yn cynnig "*lle bo'r Senedd wedi mynegi ei bwriad clir ar faterion cymhleth ac amrywiol sy'n ymwneud â budd y cyhoedd, y dylid parchu hynny.*"[12] Ymhellach y dylai Llywodraeth y DU ddarparu arweiniad i'r llysoedd ar sut i gydbwyso hawliau amodol a rhai cyfyngedig ac amlinellir dau opsiwn. Yn gyntaf, pan fydd y llysoedd yn penderfynu a yw ymyrryd â

---

[8] Gweler https://www.deeside.com/welsh-government-raises-significant-concerns-over-plans-to-replace-the-human-rights-act/

[9] Gweler tudalen 27 o'r adroddiad yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1040525/ihrar-final-report.pdf

[10] Gweler paragraff 195 o'r ymgynghoriad.

[11] Gweler para 4 o Atodiad 2 i'r ymgynghoriad.

[12] Gweler para 291 o'r ymgynghoriad.

hawl amodol yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, "*y dylid rhoi pwys mawr ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei deddfu gan y Senedd, wrth benderfynu beth sy'n cael ei ystyried yn 'angenrheidiol'*". Yn ail cynigir "*ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd roi pwys mawr ar farn a fynegwyd gan y Senedd, wrth asesu budd y cyhoedd, er mwyn pennu pa mor gydnaws yw deddfwriaeth, neu weithredoedd gan awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol neu ddyletswyddau eraill, gydag unrhyw hawl.*"[13]

Er bod awdurdodaeth llysoedd wedi'i chadw'n ôl yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006, ystyrir bod y cynigion hyn yn debygol o gael effaith o ran materion datganoledig. Os yw'r cynigion hyn yn golygu bod llysoedd domestig yn dehongli hawliau mewn ffyrdd mwy cyfyngedig na Llys Hawliau Dynol Ewrop, gall fod iddo oblygiadau o ran ystyr adrannau 81 a 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar hyn o bryd mae adran 108A(2)(e) yn darparu nad yw Deddf gan Senedd Cymru yn gyfraith os "*it is incompatible with Convention rights*" ac mae adran 81 yn darparu nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer i wneud, cadarnhau na chymeradwyo unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n "*incompatible with any of the Convention rights.*" Mae'r ymgynghoriad yn rhagweld y gall fod gwahaniaeth o ran ystyr hawl ym mharagraff 3 o Atodiad 2:

*"Mae Opsiwn 1 yn egluro nad yw'n ofynnol i'r llysoedd ddilyn na chymhwyso unrhyw ddyfarniad neu benderfyniad gan Lys Hawliau Dynol Ewrop ac nad yw ystyr hawl yn y Mesur Hawliau o reidrwydd yr un fath ag ystyr hawl gyfatebol yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol."*

Y cwestiwn naturiol sy'n codi o amgylchiadau o'r fath yw beth fyddai ystyr anghydnawsedd yn adrannau 81 a 108A? Ai'r hyn a ddiffiniwyd gan lysoedd domestig fyddai neu'r hyn a ddiffiniwyd gan Lys Hawliau Dynol Ewrop? Er nad yw'r cwestiwn hwn efallai o bwys mawr i Lywodraeth y DU oherwydd, fel yr eglurir yn yr ymgynghoriad, "*mae'r llywodraeth yn bwriadu cynnwys darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n cadarnhau sofraniaeth Seneddol wrth arfer y swyddogaeth ddeddfwriaethol, yng nghyd-destun dyfarniadau anffafriol o Strasbwrg"* mae'n hynod bwysig i'r Senedd ac i Weinidogion Cymru. Ni all y naill na'r llall ddeddfu i'r graddau y mae'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn. Ymhellach, os nad yw'r DU yn cynnal hawliau'r Confensiwn i'r safon y mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi'i nodi'n angenrheidiol, yna fel y'i nodwyd gan y Public Law Project, "*the UK will be at risk of breaching its international obligations*", y mae iddo hefyd oblygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gan droi at hawliau'r Confensiwn amodol a chyfyngedig, ymddengys fod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar Lywodraeth y DU. Mae'n darparu, wrth ystyried cymesuredd, lle bo Senedd y DU wedi mynegi ei ewyllys clir ar "*faterion sy'n ymwneud â budd y cyhoedd*" neu'r hyn a dybir yn "*angenrheidiol*" mewn cymdeithas ddemocrataidd, y dylai'r llysoedd roi pwys mawr ar hynny. Ni ddywedir unrhyw beth am safbwyntiau democrataidd cyfatebol Senedd Cymru, na deddfwriaeth o ran materion datganoledig. Os yw Llywodraeth y DU yn deddfu i bennu beth sydd er budd y cyhoedd neu'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd yn fwy cyffredinol,

[13] Gweler tudalen 84 o'r ymgynghoriad.

a'i bod yn ofynnol i lys roi sylw dyledus i hynny hefyd, hyd yn oed o ran deddfwriaeth ddatganoledig, gellir ystyried bod hyn yn newid effaith fwriadedig deddfwriaeth yng Nghymru drwy'r drws cefn.

Mewn ffordd debyg, mae Llywodraeth y DU hefyd yn cynnig y dylai'r Mesur Hawliau ddarparu canllawiau mwy cyffredinol ar sut i gydbwyso'r hawl i ryddid mynegiant â "*hawliau sy'n cystadlu â'i gilydd (fel yr hawl i breifatrwydd) neu ystyriaethau ehangach o ran budd y cyhoedd*" ac y dylai fod "*rhagdybiaeth o blaid cynnal yr hawl i ryddid mynegiant, yn amodol ar seiliau gwrth-hiliol eithriadol, a nodir yn glir gan y Senedd*".[14]

**Awdurdodau cyhoeddus a dehongli deddfwriaeth**

Ar hyn o bryd mae adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi peth sicrwydd i awdurdodau cyhoeddus. Yn unol â hynny, mae'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl Confensiwn. Mae eithriad cyfyngedig iawn sy'n gymwys os na allai'r awdurdod cyhoeddus fod wedi gweithredu'n wahanol o ganlyniad i ddarpariaethau deddfwriaeth sylfaenol, neu ddarpariaethau deddfwriaeth sylfaenol, neu ddarpariaethau a wnaed oddi tani, na ellir eu darllen neu na allant gael effaith mewn ffordd sy'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Rhaid i'r eithriad hwn gael ei ddarllen ar y cyd ag adran 3, sy'n darparu "*so far as it is possible to do so*" fod yn rhaid i ddeddfwriaeth gael ei darllen a chael effaith mewn ffordd sy'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Yn amlwg byddai unrhyw newid yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn cael effaith arnynt, sy'n fater y mae gan y Senedd a Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb yn ei gylch. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys dau gynnig ar dudalen 80 o ran awdurdodau cyhoeddus. Yr opsiwn cyntaf yw lle bynnag y bo awdurdodau cyhoeddus yn amlwg yn gweithredu deddfwriaeth sylfaenol, na ellir ystyried eu bod yn gweithredu'n anghyfreithlon. Yr ail opsiwn yw cadw'r eithriad presennol yn adran 6, ond mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r newidiadau i'r modd y gellir dehongli deddfwriaeth. Fodd bynnag, o ran y ffordd y gellir dehongli deddfwriaeth, bydd hyn yn dibynnu ar ba opsiwn a amlinellir yn yr ymgynghoriad, os o gwbl, a ddatblygir. Yn yr ymgynghoriad hwnnw cyflwynir dau opsiwn. Yn gyntaf diddymu adran 3 neu'n ail rhoi darpariaeth fwy cyfyngedig yn lle'r adran honno, fel bod llys ond yn cael dehongli deddfwriaeth yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn lle ceir amwysedd a dim ond lle gellir gwneud hynny mewn modd sy'n *"gyson â geiriad a phrif bwrpas y ddeddfwriaeth"*.

Unwaith eto bach iawn a ddywedir am y ffordd y byddai hyn yn gymwys i ddeddfwriaeth yng Nghymru. Os cynigir mai dim ond i ddeddfwriaeth a gedwir yn ôl y bydd y newid yn gymwys, yna bydd yn ddiau yn rhoi awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa anodd iawn. Byddai'n rhaid i unrhyw weithred arfaethedig gan awdurdod cyhoeddus yng Nghymru yn unol â deddfwriaeth a gedwir yn ôl gael ei hystyried ar sail gwahanol egwyddorion i unrhyw weithred o dan ddeddfwriaeth ddatganoledig. Byddai hyn yn aneglur ac ni fyddai'n darparu sicrwydd. Fodd bynnag, os mai'r hyn a gynigir yw y byddai unrhyw newidiadau yn gymwys i ddeddfwriaeth sylfaenol Senedd

[14] Gweler para 215 o'r ymgynghoriad.

y DU a Senedd Cymru, byddai hyn yn amlwg yn ystyried materion datganoledig. Yn achos Senedd Cymru nid yw hyn mor syml â Senedd y DU, a all ddibynnu ar yr egwyddor sofraniaeth Seneddol. Yn achos deddfwriaeth Cymru, yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae deddfwriaeth y tu allan i gymhwysedd os yw'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn ac yn ôl adran 81 o'r un Ddeddf, nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer i wneud, cadarnhau na chymeradwyo unrhyw is-ddeddfwriaeth i'r graddau nad yw'r is-ddeddfwriaeth yn gydnaws ag unrhyw hawliau Confensiwn.

Ym mis Chwefror, cynhaliodd Gweinidogion Cymru gyfarfod arbennig o'n Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i drafod ymgynghoriad Llywodraeth y DU. Roedd yr aelodau yn y cyfarfod hwnnw yn gwbl gytûn, heb i neb fynd yn groes, fod y cynigion yn gam yn ôl o ran hawliau dynol yn y DU a fyddai'n ei gwneud yn anos i bobl geisio camau unioni os byddai awdurdodau cyhoeddus yn gweithredu mewn ffyrdd nad oeddent yn gydnaws â'r Confensiwn.

**Rhwymedïau sydd ar gael i'r llys**

Yn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth y DU yn ceisio barn ynghylch a oes achos dros ddarparu *"mai datganiadau o anghydnawsedd yw'r unig ateb sydd ar gael i lysoedd mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth neilltuol"*[15]. Mae'n bwysig edrych ar y cynnig hwn yn fanylach. Ar hyn o bryd, yn ôl adran 4 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, os bydd llys yn fodlon bod darpariaeth deddfwriaeth sylfaenol yn anghydnaws â hawl Confensiwn a bod y ddeddfwriaeth sylfaenol dan sylw yn atal dileu'r anghydnawsedd, dim ond datganiad o anghydnawsedd y caiff y llys ei wneud. Nid yw datganiad o'r fath yn effeithio ar ddilysrwydd y ddarpariaeth, ei gweithrediad parhaus na gorfodi'r ddarpariaeth. Nid yw hyn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth. Gall is-ddeddfwriaeth gael ei diddymu gan y Llys os bydd yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Cyfeirir at y cynnig hwn wrth fynd heibio, ar dudalen 75, ac nid oes fawr ddim manylder. Nid yw'n glir o gwbl beth mae "*is-ddeddfwriaeth neilltuol*" yn ei olygu. Er bod awdurdodaeth y llys wedi'i chadw'n ôl yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gallai'r cynnig hwn hefyd gynnwys deddfwriaeth yng Nghymru. Mae hynny'n amlwg yn cael effaith o ran materion datganoledig. Ymhellach nid yw'r cynnig hwn wir yn ystyried datganoli. Mae'n negyddu'r ffaith, yng nghyd-destun Cymru, fod anghydnawsedd hawl Confensiwn yn mynd at wraidd pwerau'r Senedd a Gweinidogion Cymru i ddeddfu. Ni fyddai mor syml â nodi a yw deddfwriaeth yn anghydnaws ai peidio. Os yw llys yn nodi bod deddfwriaeth yng Nghymru yn anghydnaws, mae'n golygu ei bod y tu allan i gymhwysedd a/neu yn ultra vires.

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol wrthod unrhyw opsiwn a fyddai'n atal is-ddeddfwriaeth rhag cael ei diddymu.[16] Yn fwy penodol, ym mharagraff 62, cyfeirir at y pwynt hanfodol a wnaed gan Ganolfan Cyfraith Gyhoeddus Prifysgol Caergrawnt:

---

[15] Gweler para 250 o'r ymgynghoriad.

[16] Gweler para 64 ym Mhennod 7 o'r Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol

"*… it would… upset the current devolution settlement if subordinate legislation which contravened Convention rights could not be quashed when primary legislation of the devolved legislatures which contravenes Convention rights can be quashed as beyond the scope of power of the devolved legislatures.*"[17]

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion ar ymestyn y defnydd o orchmynion diddymu gohiriedig a darpar orchmynion. Unwaith eto mae'r hyn a nodir uchod yr un mor gymwys i'r cynnig hwn hefyd. Mae'n ddiddorol nodi ymchwil y Public Law Project a ddyfynnir yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol a hefyd yn ei ymateb i'r ymgynghoriad mai dim ond 14 o offerynnau statudol sydd wedi cael eu diddymu ar sail y Ddeddf Hawliau Dynol ers 2014. [18]

## Y Trydydd prif bryder: Mae cyfraniad cadarnhaol y Confensiwn Ewropeaiddar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi cael ei fychanu

Cafodd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ei ddrafftio'n ffurfiol yn Strasbwrg yn ystod haf 1949. Y Deyrnas Unedig oedd y wlad gyntaf i gadarnhau'r Confensiwn ym mis Mawrth 1951. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn corffori'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol a amlinellir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gyfraith ddomestig. Ym marn Llywodraeth Cymru nid oes angen i'r Ddeddf Hawliau Dynol gael ei disodli a dylid ei chadw.

Mae'n siomedig ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth y DU wedi anwybyddu cryn dipyn o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol, a wnaeth gadarnhau buddiannau cadarnhaol Deddf Hawliau Dynol 1998. Byddai'n llawer gwell cydweithio â Llywodraeth y DU i feithrin dealltwriaeth o hawliau dynol yn gyffredinol a'r Ddeddf Hawliau Dynol yn benodol ledled y DU, yn unol ag argymhelliad cyntaf yr Adolygiad Annibynnol "that serious consideration is given by Government to developing an effective programme of civic and constitutional education in schools, universities and adult education"[19]. Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at gonsensws na ddeellir Deddf Hawliau Dynol 1998 yn eang yn y DU, gan nodi panel yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn benodol, ond mae'n anwybyddu ei ateb arfaethedig, sef y dylai'r Llywodraeth fuddsoddi mewn addysg a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch y Ddeddf Hawliau Dynol, y Confensiwn a Llys Hawliau Dynol Ewrop.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi sawl achos dros ddiwygio. Fodd bynnag gall rhai o'r achosion hyn gael eu hystyried yn ddadleuol, ac yn unochrog.

[17] Canolfan Cyfraith Gyhoeddus Prifysgol Caergrawnt, Cyflwyniad i Banel yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol, yn, Cyflwyniad i Banel yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol, yn [92].
[18] https://publiclawproject.org.uk/latest/human-rights-act-5-concerns-with-new-consultation/
[19] Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol t.21

Mae achosion eraill nas cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad sy’n dangos effaith gadarnhaol Llys Hawliau Dynol Ewrop. Amlinellir rhai o'r achosion hynny isod.

- Mor bell yn ôl ag 1978, yn ei ddyfarniad pwysig yn achos ***Ireland v The United Kingdom***[20], dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod defnydd y fyddin Brydeinig o rai technegau holi, sydd bellach yn ymddangos yn ddieithr, gan gynnwys gorfodi unigolion i aros mewn ystum straen am oriau ar y tro, rhoi hwd drostynt, gwneud iddynt wrando ar sŵn uchel yn barhaus, a mynd heb gwsg a bwyd a diod, yn gyfystyr â thorri Erthygl 3 (atal artaith). Roedd yr achos yn un arwyddocaol oherwydd sefydlodd yr egwyddor y gall effaith gronnol camdriniaeth fod yn gyfystyr â thorri'r Erthygl hon.

- Achos pwysig arall y flwyddyn ganlynol oedd ***The Sunday Times v The United Kingdom***[21]. Gosododd gwaharddeb llys gyfyngiadau gohebu ar y Sunday Times er mwyn ei atal rhag cyhoeddi erthygl am yr achosion sifil a ddygwyd gan rieni plant a anwyd â namau corfforol difrifol oherwydd thalidomid a gymerwyd yn ystod beichiogrwydd. Ystyriodd yr achos nid yn unig ryddid y wasg i hysbysu'r cyhoedd ond hefyd hawl y cyhoedd i gael ei hysbysu'n ffurfiol, gan nodi “*In the present case, the families of numerous victims of the tragedy, who were unaware of the legal difficulties involved, had a vital interest in knowing all the underlying facts and the various possible solutions.*”. Datganodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod Erthygl 10 (rhyddid mynegiant) wedi cael ei thorri.

- Dyfarniad pwysig arall yw achos ***Lustig-Prean and Beckett v The United Kingdom***[22]. Y ceisyddion yn yr achos hwnnw oedd personél y Llynges Frenhinol Brydeinig a fu'n destun ymchwiliad busnesgar ac a ddadfyddinwyd am eu bod yn hoyw. Nododd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod Erthygl 8 (hawl i barch am fywyd preifat) wedi cael ei thorri mewn perthynas â'r ddau aelod o bersonél hyn. Arweiniodd yr achos nodedig hwn at newid y gyfraith yn y DU a chafodd y gwaharddiad ei godi.

- Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop hefyd wedi cynnal hawliau plant sy'n dioddef esgeulustod a chamdriniaeth ddifrifol. Yn achos ***Z and Others v the United Kingdom***[23], honnodd y ceisyddion, pedwar brawd a chwaer, fod yr awdurdod lleol wedi methu â chymryd camau diogelu digonol o ran yr esgeulustod a'r gamdriniaeth ddifrifol roeddent yn eu dioddef dan law eu rhieni, ac nad oedd modd iddynt geisio iawn effeithiol am hyn mewn llys. Nododd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod yr esgeulustod a'r gamdriniaeth a ddioddefwyd gan y pedwar ceisydd (y plant) yn cyrraedd trothwy triniaeth annynol a diraddiol a bod methiant ar ran y system i'w hamddiffyn rhag esgeulustod a chamdriniaeth ddifrifol a hirdymor, ac felly y bu achos o dorri Erthygl 3 (atal artaith). Yn yr un

[20]Cais rhif 5310/71
[21] Cais rhif 6538/74
[22]Ceisiadau rhifau 31417/96 a 32377/96
[23] Cais rhif 29392/95

modd, yn achos ***E and Others v the United Kingdom***[24], nododd Llys Hawliau Dynol Ewrop, yn achos y plant a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol, fod y diffyg ymchwilio, cyfathrebu a chydweithio gan yr awdurdodau perthnasol yn gorfod cael ei ystyried yn rhywbeth a gafodd gryn ddylanwad ar yr hyn a ddigwyddodd ac felly y bu achos o dorri Erthygl 3 (atal artaith).

- Dyfarniad pwysig arall sy'n ystyried hawliau pobl agored i niwed yw achos ***HL v The United Kingdom***[25]. Yn yr achos hwnnw, roedd y ceisydd wedi dioddef o awtistiaeth ddifrifol ers ei eni ac nid oedd ganddo alluedd. Cafodd ei dderbyn i'r ysbyty fel "*informal patient*" oherwydd tybiwyd ei fod wedi cytuno, er nad oedd ganddo alluedd. Yna roedd o dan "*continuous supervision and control and was not free to leave*". Nododd Llys Hawliau Dynol Ewrop "*the right to liberty is too important in a democratic society for a person to lose the benefit of Convention protection for the single reason that he may have given himself up to be taken into detention, especially when it is not disputed that that person is legally incapable of consenting to, or disagreeing with, the proposed action.*" Nododd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod absenoldeb mesurau diogelu gweithdrefnol i bobl heb alluedd yn gyfystyr â thorri Erthygl 5 (hawl i ryddid a diogelwch). Arweiniodd yr achos hwn at newid yn y gyfraith a diogelu'r rhai sy'n dioddef o anhwylder neu anabledd meddwl.

- Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop hefyd wedi cynnal hawliau menyw agored i niwed a gadwyd mewn caethwasanaeth domestig. Yn achos ***C.N. v The United Kingdom***[26], nododd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod yr heddlu wedi methu ag ymchwilio'n iawn i'w chwynion, ac y bu methiant i sicrhau bod deddfwriaeth benodol ar waith a oedd yn troseddoli caethwasiaeth ddomestig. Yn unol â hynny torrwyd Erthygl 4 (atal caethwasiaeth a llafur dan orfod).

## Y Pedwerydd prif bryder: Cyfyngu ar fynediad I gyfiawnder

The Mae'r ymgynghoriad yn nodi "mae'r llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – ac, yn wir, draddodiad y DU o arweinyddiaeth ar hawliau dynol dramor." Fodd bynnag, caiff yr haeriad hwn ei danseilio'n fynych gan y cynigion manwl a allai, o'u rhoi ar waith, ei gwneud hi'n anos i bobl gael cyfiawnder.

Mae ambell gynnig a allai effeithio ar fynediad i gyfiawnder. Os cyflwynir cam caniatâd ac mai'r safon sydd ei hangen i fwrw ymlaen yw "anfantais sylweddol", gallai hyn olygu na chaiff pobl yng Nghymru na'r DU fynediad i gyfiawnder.

Mae cynigion eraill, y cyfeirir atynt eisoes, a all arwain at lysoedd domestig yn dehongli hawliau'n gulach, a allai arwain at gynnydd mewn achosion gerbron Llys Hawliau

[24] Cais rhif 33218/96
[25] Cais rhif 45508/99
[26] Cais rhif 4239/08

Dynol Ewrop. Gallai hyn greu anawsterau o ran mynediad i gyfiawnder mewn dwy ffordd:

a) Yn gyffredinol, gall gymryd hyd at 5 mlynedd o ddwyn achos i ddyfarniad. Mae hyn yn hwy na'r llysoedd domestig;
b) Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn gyfyngedig o ran rwymedïau a gorfodi. Yn dilyn dyfarniad, mater i'r Wladwriaeth fyddai dehongli a gweithredu.

Yn olaf, yn dibynnu ar ba gynigion a gaiff eu rhoi ar waith ac yn bwysig sut y gwneir hynny, gallai cwestiynau cyfansoddiadol cymhleth godi, a allai gael effaith ar fynediad i gyfiawnder. Gall dadleuon cyfansoddiadol cymhleth ei gwneud hi'n anos i rywun gael cyngor a'r cyngor cywir. Gall achosion o'r fath fod yn hirfaith, a allai fod yn arbennig o broblematig i'r rhai sy'n wynebu amgylchiadau uniongyrchol ac anodd. Gallai hyn godi, er enghraifft, mewn perthynas â hawliau plant.

## Y pumed prif bryder: targedu pobl agored i biwed a phobl ddifreintiedig yn annheg

Dylai hawliau fod yn gymwys i bawb, ond mae'r cynigion hyn yn ymddangos fel petaent yn glastwreiddio neu'n lleihau hawliau rhai grwpiau, gan gynnwys y mwyaf ymylol a difreintiedig. Mae'r cynigion hefyd yn ceisio gwahaniaethu rhwng pobl neu achosion "haeddiannol" a phobl neu achosion "anhaeddiannol".

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig bod yn rhaid i geisyddion fynd ar drywydd unrhyw hawliadau eraill a all fod ganddynt gyntaf. Byddai hyn yn golygu y gallai'r cyfryw bersonau naill ai gael eu hatal hefyd rhag haeru anghydnawsedd â hawl Confensiwn neu efallai na fyddent yn cael unrhyw iawndal am eu bod eisoes wedi cael "*iawn digonol*".[27]

Yn ddiweddarach, ar dudalen 87 (cwestiwn 26), mae Llywodraeth y DU yn amlinellu nifer o ffactorau y gallai llys eu hystyried wrth ddyfarnu iawndal a faint. Yn eu plith mae "*a. yr effaith ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus; b. i ba raddau y cafodd y rhwymedigaeth statudol ei chyflawni; c. hyd a lled y toriad; a d. lle'r oedd yr awdurdod cyhoeddus yn ceisio rhoi effaith i ddarpariaethau datganedig, neu ddiben clir, deddfwriaeth.*"

Yna, yn fwyaf dadleuol, mae'r ymgynghoriad yn gwahaniaethu rhwng hawlwyr "haeddiannol" ac "anhaeddiannol". Yn arbennig, mae'n argymell "*drwy gysylltu'n glir y rhwymedïau sydd ar gael dan y Mesur Hawliau â'r ffordd y mae'r hawlydd wedi byw yn ôl ei egwyddorion sylfaenol, bydd y llysoedd yn cael eu tywys yn benodol i feddwl yn feirniadol am yr iawn y maent yn ei gynnig ac osgoi gwobrwyo hawlwyr anhaeddiannol a allai fod wedi tresmasu ar hawliau eraill.*"[28] Nid yw'r ymgynghoriad yn diffinio pwy all fod yn gyfystyr â "*hawlydd anhaeddiannol*" nac unrhyw ymddygiad a allai gael ei ystyried yn "*anhaeddiannol*".

[27] Gweler para 226 o'r ymgynghoriad.
[28] Gweler para 308 o'r ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru yn poeni'n arw am y paragraffau, yn enwedig yr iaith a ddefnyddir, yn yr ymgynghoriad a allai arwain at wanhau hawliau gwladolion tramor a mudwyr anghyfreithlon ac afreolaidd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi lleisio barn am y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau. Mewn Datganiad Ysgrifenedig dyddiedig 6 Tachwedd 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi lleisio ei barn am y Bil hwnnw'n glir.[29] I ddyfynnu'n uniongyrchol o'r datganiad hwnnw:

> "*Mae Cynllun Mewnfudo Newydd Llywodraeth y DU a'i Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, sydd ar hyn o bryd yn gwneud ei ffordd drwy ddau Dŷ Senedd y DU, yn llwyr danseilio ein gweledigaeth o Gymru fel Cenedl Noddfa.*
>
> *…*
>
> *Credwn y bydd llawer o'r darpariaethau yn y Bil yn torri confensiynau rhyngwladol ac egwyddorion cyfiawnder, gan osod amodau eithafol ac anorchfygol yn eu hanfod ar bobl sy'n troi atom i'w diogelu.*
>
> *Bydd nifer o ddarpariaethau'r Bil yn effeithio ar weithrediad cyfrifoldebau datganoledig, a byddwn yn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r rhain. Byddant hefyd yn effeithio ar ein gallu i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, cynllunio, gwasanaethau cymdeithasol, cydlyniant cymunedol ac integreiddio mudwyr.*
>
> *…*
>
> *Yng Nghymru, rydym yn falch o fod yn Genedl Noddfa. Rydym yn falch o'r holl asiantaethau ac unigolion sy'n cydweithio i greu profiad unedig a chroesawgar i bobl sydd wedi ailsefydlu yma.*
>
> *Mae Cymru yn wlad groesawgar a byddwn bob amser yn sefyll gyda'r rhai sydd ein hangen ni fwyaf. Rydym am i Lywodraeth y DU newid cyfeiriad er mwyn gwella – nid gwaethygu – sefyllfa gyfreithiol, foesegol a chyfiawn y Deyrnas Unedig.*"

Gallai'r cynigion lastwreiddio hawliau pobl Cymru a'r DU yn gyffredinol, ac yn arbennig y rhai sydd eisoes ymhlith y mwyaf difreintiedig. Byddai'r cynigion yn ei gwneud hi'n anos i'r bobl heb adnoddau sylweddol gael mynediad at gyfiawnder; ei gwneud hi'n anos i orfodi hawliau pobl â nodweddion gwarchodedig; ac yn galluogi neu hyd yn oed yn annog rhai grwpiau i fod yn destun gwahaniaethu. Mae'r ffocws anghymesur ar allgludo yn destun gofid, oherwydd mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn haeddu cael eu hawliau wedi eu diogelu ac am fod goblygiadau ehangach y cynigion mewn perygl o gael eu celu.

## Y chweched prif bryder: diffyg tystiolaeth i ategu'r cynigion

Mae rhanddeiliaid Cymdeithas Ddinesig yng Nghymru wedi dweud wrthym eu bod o'r farn bod yr ymgynghoriad yn anghytbwys, a'i fod wedi'i atal gan y ffordd y mae materion hawliau dynol wedi'u disgrifio am resymau gwleidyddol, yr achosion a nodir

[29] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-bil-cenedligrwydd-ffiniau-y-du

a chamliwio hanes diweddar Hawliau Dynol yn y DU.  Yn eu barn nhw, ni chaiff llawer o'r cynigion eu hategu gan dystiolaeth, neu defnyddir tystiolaeth mewn ffordd annheg neu amhriodol, gan ddibynnu ar achosion eithafol i gyfiawnhau newid a chamgynrychioli'r ffordd y mae llysoedd y DU wedi ymddwyn mewn modd cymesur a chyfrifol ran amlaf wrth gymhwyso cyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol gan barchu cyfreithiau'r DU yn llawn.

Unwaith eto, mae'r ymgynghoriad yn gwbl groes i'r Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol, a gasglodd ac a ddarparodd ystod lawer ehangach a mwy cytbwys o dystiolaeth, y mae Llywodraeth y DU naill ai wedi ei hanwybyddu neu wedi ei defnyddio'n ddethol iawn i gefnogi ei chynigion.

Mae'r ymgynghoriad yn beirniadu adran 3 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ond nid yw'n darparu tystiolaeth. Yn ystod trafodaethau â chynrychiolwyr cymdeithas sifil, roedd barn gyffredinol ei bod yn gweithio'n dda am ei bod yn galluogi llysoedd domestig i ddehongli deddfwriaeth yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Mae llysoedd yn ystyried “ystyr gyffredin” deddfwriaeth a gallant ystyried y cyd-destun deddfwriaethol. Dim ond pan fydd darpariaeth yn amwys y bydd adran 3 yn cael effaith.

Hefyd yn ystod trafodaethau â chynrychiolwyr cymdeithas sifil, roedd barn gyffredin bod y Llysoedd yn arfer eu disgresiwn yn gyfiawn. Mae'r ymgynghoriad yn darllen fel petai'r llysoedd yn defnyddio eu pŵer i ddiddymu swm enfawr o is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag ni ddarperir unrhyw ffigurau na thystiolaeth yn yr ymgynghoriad.

Yn yr un modd nid yw'r ymgynghoriad yn adlewyrchu'r ffaith bod gan y llys bwerau i ddiddymu rheoliadau am resymau cyfraith gyhoeddus eraill. Felly byddai ynysu her hawliau dynol yn golygu na fyddai'n unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus eraill ac nid oes unrhyw resymeg na chyfiawnhad yn yr ymgynghoriad dros wneud hynny.

# Ymatebion i gwestiynau’r ymgynghoriad

## Adran I – Parchu ein traddodiadau cyfraith gyffredin a chryfhau rôl Goruchaf lys y du

C1. *Credwn y dylai’r llysoedd domestig allu defnyddio ystod eang o ddeddfau wrth wneud penderfyniadau ar faterion hawliau dynol. Byddem yn croesawu eich barn ar y cymalau drafft enghreifftiol a geir ar ôl paragraff 4 yn Atodiad 2, fel ffordd o gyflawni hyn.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod y broblem a nodir gan Lywodraeth y DU. Mae llysoedd y DU eisoes yn gallu cymhwyso ystod eang o ddeddfau mewn achosion hawliau dynol. Mae'r ddau opsiwn a roddir yn y cymalau drafft enghreifftiol yn awgrymu bod problem gyda'r ffordd y mae llysoedd y DU wedi defnyddio'r Ddeddf Hawliau Dynol; nid ategir hyn gan dystiolaeth na'r Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol, sy'n awgrymu dim ond mân ddiwygiad i Adran 2 o'r Ddeddf Hawliau Dynol er mwyn egluro'r drefn y dylai llysoedd ystyried cyfreithiau eraill ynddi.

Byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn tanseilio ymrwymiad y DU i gyfraith ryngwladol a'n rhwymedigaethau presennol, gan lastwreiddio'r cysylltiad rhwng llysoedd y DU a Llys Hawliau Dynol Ewrop yn ddifrifol, gan greu'r potensial am wahaniaeth a fyddai'n codi cwestiynau ynghylch sylwedd ein bod yn parhau i arddel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn sgil y ffaith y byddai modd i ddinasyddion y DU ddwyn achosion gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop o hyd, mae risg y byddai mwy o achosion yn mynd yno ac yn cymryd mwy o amser i gael cyfiawnder a bod y rhwymedïau'n gyfyngedig. Gallai hyn o bosibl gynyddu anghydraddoldeb a'i gwneud yn anos i'r mwyafrif o bobl gael mynediad at gyfiawnder.

C2. Bydd y Mesur Hawliau’n nodi’n glir mai Goruchaf Lys y DU yw’r awdurdod barnwrol terfynol ar ein cyfreithiau o ran gweithredu hawliau dynol.

Sut gall y Mesur Hawliau gyflawni hyn orau gyda mwy o sicrwydd ac awdurdod na’r sefyllfa bresennol?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ym marn Llywodraeth Cymru, nid oes angen gwneud y newid. Mae'r Goruchaf Lys eisoes yn cael ei gydnabod fel awdurdod terfynol llysoedd y DU, oni bai (ac yn anghyffredin iawn) bod barn wahanol gan Lys Hawliau Dynol Ewrop. Nid yw'r ymgynghoriad yn darparu tystiolaeth i ddangos bod angen y newid hwn ac mae'n anwybyddu tystiolaeth a gasglwyd gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol sy'n awgrymu nad oes ei angen. Dylai Llywodraeth y DU gydnabod ac ategu ei hymrwymiad parhaus i gyfraith ryngwladol, a pheidio â cheisio tanseilio egwyddorion hawliau dynol hirsefydledig.

C3. A ddylai'r hawl amodol i dreial gerbron rheithgor gael ei chydnabod yn y Mesur Hawliau? [Dylai / Na ddylai / Mae gen i ateb arall / Gwell gennyf beidio â dweud]. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr hawl i dreial gerbron rheithgor, a bydd bob amser yn amddiffyn hynny. Fodd bynnag nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod Deddf Hawliau Dynol 1998 na'r Confensiwn yn groes i hynny. Nid yw'r cwestiwn hwn yn cydweddu â gweddill y ddogfen.

C4. Sut y gellid diwygio'r sefyllfa bresennol o dan adran 12 y Ddeddf Hawliau Dynol i gyfyngu ar ymyrraeth â'r wasg a chyhoeddwyr eraill drwy waharddebau neu ryddhad arall?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhyddid y wasg a rhyddid mynegiant ond mae'n poeni bod y rhan hon o'r ymgynghoriad yn ddetholus iawn ac yn anghytbwys o ran ei chyfeiriadau at Lys Hawliau Dynol Ewrop a chyfraith achosion y DU. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 eisoes yn cynnwys mesurau diogelu. Ar y cyfan mae'r cydbwysedd hwn yn gweithio'n dda.

C5. Mae'r llywodraeth yn ystyried sut y gallai gyfyngu'r cwmpas ar gyfer ymyrryd ag Erthygl 10 i amgylchiadau cyfyngedig ac eithriadol, gan ystyried yr ystyriaethau uchod. I'r perwyl hwn, sut y gellid rhoi arweiniad cliriach i'r llysoedd ynghylch y pwys mwyaf a roir ar Erthygl 10? Pa arweiniad y gallem ei gael o fodelau rhyngwladol eraill ar gyfer amddiffyn rhyddid mynegiant?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Gweler ein hateb i C4 am ein barn ynghylch y cwestiwn hwn.

C6. Pa gamau pellach y gellid eu cymryd yn y Mesur Hawliau i roi gwarchodaeth gryfach i ffynonellau newyddiadurwyr?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Gweler ein hateb i C4 am ein barn ynghylch y cwestiwn hwn.

QC7. A oes unrhyw gamau eraill y gallai'r Mesur Hawliau eu cymryd i gryfhau'r amddiffyniad i ryddid mynegiant?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Gweler ein hateb i C4 am ein barn ynghylch y cwestiwn hwn.

## Adran II. Adfer ffocws cliriach ar ddiogelu Hawliau sylfaenol

C8. Ydych chi'n credu y byddai amod bod yn rhaid i unigolion fod wedi dioddef 'anfanteision sylweddol' i ddwyn hawliad dan y Mesur Hawliau, fel rhan o gam caniatâd ar gyfer hawliadau o'r fath, yn ffordd effeithiol o sicrhau bod llysoedd yn canolbwyntio

ar faterion hawliau dynol go iawn? [Ydw / Nac ydw / Mae gen i ateb arall / Gwell gennyf beidio â dweud]. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r adran hon yn peri cryn bryder ynghylch camu yn ôl o ran hawliau dynol. Ni chaiff y cynigion eu hategu gan dystiolaeth. Gallai cam caniatâd ei gwneud hi'n anos cael cyfiawnder, yn enwedig os yw'r trothwy yn uchel, fel y'i cynigir yn yr ymgynghoriad.

C9. A ddylai'r cam caniatâd gynnwys ail gymal 'pwysigrwydd cyhoeddus gwirioneddol' ar gyfer achosion eithriadol sy'n methu â bodloni'r trothwy 'anfanteision sylweddol', ond lle mae rheswm cryf iawn dros wrando'r achos serch hynny? [Dylai / Na ddylai / Mae gen i ateb arall / Gwell gennyf beidio â dweud]. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yn unol â'r sylwadau uchod a'r ateb blaenorol yn arbennig, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod cam caniatâd yn angenrheidiol nac yn ddymunol.

C10. Ym mha ffordd arall y gallai'r llywodraeth sicrhau orau y gall y llysoedd ganolbwyntio ar achosion gwirioneddol o gam-drin hawliau dynol?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn effeithiol wrth ddiogelu hawliau pobl yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn poeni am yr iaith a ddefnyddir yn yr ymgynghoriad, megis 'hawliadau annheilwng', 'materion hawliau dynol go iawn'; 'camarfer hawliau'. Dylai Llywodraeth y DU ailedrych ar ganfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol eto.

C11. Sut y gall y Mesur Hawliau fynd i'r afael â gosod ac ehangu rhwymedigaethau cadarnhaol i atal cyfreitha hawliau dynol costus rhag effeithio ar flaenoriaethau gwasanaethau cyhoeddus? Rhowch resymau

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Nid ydym yn cytuno â'r tybiaethau sy'n sail i'r cwestiwn hwn. Mae rhwymedigaethau cadarnhaol yn hanfodol i wasanaethau cyhoeddus, eisoes yn gytbwys, ac yn angenrheidiol i ddiogelu pobl o bob cefndir. Gallai tanseilio rhwymedigaethau cadarnhaol gael effaith llawer mwy pellgyrhaeddol na'r hyn a awgrymir gan y cynigion, a hynny o bosibl drwy lastwreiddio dyletswyddau presennol o ran amddiffyn plant, diogelu rhag caethwasiaeth fodern ac atal trais yn erbyn menywod a merched, ymhlith rhai enghreifftiau pwysig. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi chwarae rhan hanfodol yn y maes hwn, er enghraifft galluogi dioddefwyr y treisiwr John Worboys i ddwyn Heddlu'r Met i gyfrif am fethiannau difrifol. Ni ddylai pobl â chyfrifoldebau gael penderfynu drostynt eu hunain pa ddyletswyddau i'w cyflawni.

## Adran III. Atal ehangu Hawliau'n raddol heb oruchwyliaeth ddemocrataidd briodol

*C12. Byddem yn croesawu eich barn ar yr opsiynau ar gyfer adran 3.*

*Opsiwn 1: Diddymu adran 3 a pheidio â'i disodli*

*Opsiwn 2: Diddymu adran 3 a rhoi darpariaeth yn ei lle, lle ceir amwysedd, y dylid dehongli deddfwriaeth yn gydnaws â'r hawliau yn y Mesur Hawliau, ond dim ond lle gellir dehongli mewn modd sy'n gyson â geiriad a phrif bwrpas y ddeddfwriaeth.*

*Byddem yn croesawu sylwadau ar yr opsiynau uchod, a'r cymalau enghreifftiol yn Atodiad 2.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Noda Llywodraeth Cymru fod rhan ragarweiniol yr adran hon yn dechrau drwy nodi "Mae'r llywodraeth am gryfhau traddodiad hir y DU o amddiffyn hawliau dynol" ond cred fod y cynigion yn niweidiol i'r nod hwnnw at ei gilydd.

Mae'r detholiad o achosion a'r enghreifftiau yn yr adran hon o'r ymgynghoriad yn arbennig o bleidiol, anghynrychioliadol a chamarweiniol. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol. Nodwn nad oedd yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn cytuno â diddymu adran 3.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r naill opsiwn na'r llall yng nghwestiwn 12, nac â'r dybiaeth sylfaenol yn yr adran hon sydd hefyd yn groes i ddyhead a bwriad Llywodraeth Cymru i gryfhau a hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru. Er bod Llywodraeth y DU yn ategu ei bwriad i barhau i arddel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gallai newidiadau i adran 3 gyfyngu ar allu'r llysoedd i sicrhau cydnawsedd â'r Confensiwn. Dylid cadw adran 3.

C13. Sut gellid gwella rôl y Senedd o ran ymgysylltu â dyfarniadau adran 3 a chraffu arnynt?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Am y rhesymau a roddwyd gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynigion sydd yn yr Adolygiad hwnnw.

C14. A ddylid creu cronfa ddata newydd i gofnodi pob dyfarniad sy'n dibynnu ar adran 3 wrth ddehongli deddfwriaeth? [Dylid / Na ddylid / Mae gen i ateb arall / Gwell gennyf beidio â dweud]. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru.**

Dylai cronfa ddata newydd gael ei chreu. Cafodd hyn ei argymell gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol ac mae'n syndod nad oes cronfa ddata o'r fath yn bodoli eisoes. Gallai cronfa ddata o'r fath, wedi'i hadnoddu'n briodol a'i rheoli'n annibynnol, chwarae rhan ddefnyddiol yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o hawliau dynol a sut y defnyddir y cyfryw hawliau yn y llysoedd. Wrth gwrs, nid oes rheswm pam na allai cronfa ddata fel hon gael ei chreu heb ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.

C15. A ddylai'r llysoedd allu gwneud datganiad o anghydnawsedd ar gyfer pob is-ddeddfwriaeth, fel y gallant wneud ar hyn o bryd ar gyfer Deddfau Seneddol? [Dylent / Na ddylent / Mae gen i ateb arall / Gwell gennyf beidio â dweud]. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Na ddylent, ni ddylai'r llysoedd gael eu cyfyngu i wneud datganiad o anghydnawsedd yn unig. Mae'r llysoedd yn arfer eu disgresiwn yn gyfiawn, ac nid oes unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb. Gall y llysoedd ddiddymu is-ddeddfwriaeth am resymau cyfraith gyhoeddus, ac mae'n gwbl aneglur pam mae Llywodraeth y DU o'r farn na ddylai hyn ddigwydd mwyach yn achos her hawliau dynol. Hefyd ni chaiff unrhyw dystiolaeth ei chyflwyno i awgrymu bod is-ddeddfwriaeth yn cael ei diddymu ar raddfa eang.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn poeni bod cyfeiriad cyffredinol yn cael ei wneud at is-ddeddfwriaeth, ac nid oes unrhyw ystyriaeth i'r sefyllfa yng Nghymru na chyfraith Cymru, yn enwedig y ffaith bod yn rhaid i holl gyfraith Cymru gydymffurfio â hawliau'r Confensiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn poeni'n arw y gallai unrhyw newid beri dryswch ac ansicrwydd cyfreithiol yng Nghymru.

C16. A ddylid ymestyn y cynigion ar gyfer gorchmynion diddymu gohiriedig a darpar orchmynion a gyflwynir yn y Mesur Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd i bob achos dan y Mesur Hawliau lle canfyddir bod is-ddeddfwriaeth yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn? [Dylid / Na ddylid / Mae gen i ateb arall / Gwell gennyf beidio â dweud]. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Fel y nodwyd mewn ymateb i gwestiwn 15, mae Llywodraeth Cymru yn poeni y gwneir cyfeiriad cyffredinol at is-ddeddfwriaeth ac nad ystyrir y sefyllfa yng Nghymru, na chyfraith Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn poeni y gallai unrhyw newid beri dryswch ac ansicrwydd cyfreithiol yng Nghymru.

C17. A ddylai'r Mesur Hawliau gynnwys pŵer gorchymyn unioni? Yn benodol, a ddylai fod:

a) Yn debyg i'r hyn a geir yn adran 10 y Ddeddf Hawliau Dynol;

b) Yn debyg i'r hyn a geir yn y Ddeddf Hawliau Dynol, ond na ellid ei ddefnyddio i ddiwygio'r Mesur Hawliau ei hun;

c) Wedi'i gyfyngu'n unig i orchmynion unioni a wneir o dan y weithdrefn 'frys', neu

d) Ei ddiddymu'n gyfan gwbl?

[Gwell gennyf beidio â dweud / Mae gen i ateb arall.] Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ym marn Llywodraeth Cymru, os bydd deddfwriaeth yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn, dylid ymdrin â hi ar fyrder. Yng Nghymru, rhaid i ddeddfwriaeth fod yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn, sy'n gwbl gywir.

C18. Byddem yn croesawu eich barn ar sut rydych chi'n credu bod adran 19 yn gweithredu'n ymarferol, ac a oes achos dros newid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ym marn Llywodraeth Cymru, dylai deddfwriaeth ddrafft a deddfwriaeth sydd wedi dod i rym fod yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Dyna'n sicr yw'r sefyllfa yng Nghymru, ac mae'n sefyllfa a gefnogir yn llawn gan Lywodraeth Cymru.

C19. Beth yw'r ffordd orau i'r Mesur Hawliau adlewyrchu gwahanol ddiddordebau, hanes a thraddodiadau cyfreithiol pob rhan o'r DU, gan gadw'r egwyddorion allweddol sy'n sail i Fesur Hawliau ar gyfer y DU gyfan?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'n ofid mawr gan Lywodraeth Cymru mai dyma'r unig gwestiwn yr ymddengys ei fod yn cydnabod natur ddatganoledig y DU a'r deddfwrfeydd a'r llywodraethau a etholwyd yn ddemocrataidd. Fel y nodwyd yn y rhagarweiniad i'r ymateb hwn, mae'r methiant i gydnabod neu ddeall y graddau y mae hawliau'r Confensiwn yn rhan o gyfraith Cymru yn bryderus. Nid oes gennym unrhyw hyder y byddai Mesur Hawliau yn seiliedig ar y cynigion hyn yn adlewyrchu diddordebau, hanes na thraddodiadau cyfreithiol Cymru (na gwledydd eraill y DU).

C20. A ddylid cadw'r diffiniad presennol o awdurdodau cyhoeddus, neu a ellir darparu mwy o sicrwydd ynghylch pa gyrff neu swyddogaethau sy'n cael eu cynnwys? Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r ymgynghoriad ei hun yn cydnabod bod y dull o ddiffinio cyrff cyhoeddus yn "briodol ar y cyfan". Ni welwn unrhyw reswm i newid hyn ac mae'n bryderus y gallai gwneud hynny yng nghyd-destun diwygio Deddf Hawliau Dynol 1998 gael ei ddefnyddio i leihau cyfrifoldebau cyrff sy'n gweithredu ar ran y Llywodraeth, a thrwy hynny, leihau mesurau diogelu pwysig yn erbyn camddefnyddio pŵer.

C21. Hoffai'r llywodraeth roi mwy o hyder i awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu swyddogaethau o fewn terfynau cyfraith hawliau dynol. Pa un o'r dewisiadau canlynol yn lle adran 6(2) fyddai orau gennych chi?

Opsiwn 1: Darparu, lle bynnag y bo awdurdodau cyhoeddus yn amlwg yn gweithredu deddfwriaeth sylfaenol, nad ydynt yn gweithredu'n anghyfreithlon; neu

Opsiwn 2: Cadw'r eithriad presennol, ond mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r newidiadau i'r modd y gellir dehongli deddfwriaeth a drafodir uchod ar gyfer adran 3.

Pa un o'r dewisiadau canlynol yn lle adran 6(2) fyddai orau gennych chi?

Opsiwn 1 / Opsiwn 2 / Dim un o'r opsiynau hyn / Gwell gennyf beidio ag ateb / Arall. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Dim un opsiwn. Yn unol â'n hatebion i C11 ac C20, mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu unrhyw newidiadau a fyddai'n glastwreiddio cyfrifoldeb awdurdodau cyhoeddus i gynnal hawliau dynol.

C22. O ystyried yr uchod, byddem yn croesawu eich barn ar y dull mwyaf priodol o fynd i'r afael ag awdurdodaeth alltiriogaethol, gan gynnwys y tensiwn rhwng cyfraith gwrthdaro arfog a'r Confensiwn mewn perthynas â gwrthdaro arfog alltiriogaethol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Cred Llywodraeth Cymru y dylai hawliau'r Confensiwn fod yn ddiymwad ac yn anostwng.

C23. I ba raddau y mae defnyddio egwyddor ‘cymesuredd’ wedi arwain at broblemau, yn ymarferol, dan y Ddeddf Hawliau Dynol? Dymunwn ddarparu mwy o arweiniad i’r llysoedd ar sut i gydbwyso hawliau amodol a rhai cyfyngedig. Pa un o’r opsiynau isod, yn eich barn chi, yw’r ffordd orau o gyflawni hyn?

Opsiwn 1: Egluro, pan fydd y llysoedd yn penderfynu a yw ymyrryd â hawl amodol yn ‘angenrheidiol’ mewn ‘cymdeithas ddemocrataidd’, y dylid rhoi pwys mawr ar ddeddfwriaeth sy’n cael ei deddfu gan y Senedd, wrth benderfynu beth sy’n cael ei ystyried yn ‘angenrheidiol’.

Opsiwn 2: Ei gwneud yn ofynnol i’r llysoedd roi pwys mawr ar farn a fynegwyd gan y Senedd, wrth asesu budd y cyhoedd, er mwyn pennu pa mor gydnaws yw deddfwriaeth, neu weithredoedd gan awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol neu ddyletswyddau eraill, gydag unrhyw hawl.

Byddem yn croesawu eich barn ar yr opsiynau uchod, a’r cymalau drafft ar ôl paragraff 10 Atodiad 2.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ym marn Llywodraeth Cymru mae'r ymgynghoriad yn gor-ddweud ac yn camliwio graddau'r problemau honedig yn y maes hwn, ac yn anwybyddu neu'n cam-gynrychioli corff eang o dystiolaeth nad yw'n cyd-fynd â'i rhagdybiau â sail wleidyddol. Ategwn ein pryderon ynghylch y risgiau o ymyrraeth gan y weithrediaeth yng ngwaith y llysoedd ac felly ni allwn gefnogi'r naill opsiwn na'r llall.

C24. Sut y gallwn sicrhau nad yw allgludo sydd er budd y cyhoedd yn cael ei rwystro gan hawliadau hawliau dynol? Pa un o’r dewisiadau isod, yn eich barn chi, fyddai’r ffordd orau o gyflawni’r amcan hwn? Rhowch resymau.

Opsiwn 1: Darparu na all rhai hawliau yn y Mesur Hawliau atal categori penodol o unigolyn rhag cael ei allgludo, er enghraifft, ar sail trothwy penodol fel hyd dedfryd o garchar;

Opsiwn 2: Darparu na all rhai hawliau ond atal allgludo lle darperir ar gyfer hynny mewn cynllun deddfwriaethol sydd wedi’i gynllunio’n benodol i gydbwyso buddiannau cryf y cyhoedd o ran allgludo yn erbyn hawliau o’r fath; a/neu

Opsiwn 3: Darparu na ellir gwrthdroi penderfyniad allgludo, oni bai ei fod yn amlwg yn ddiffygiol, gan atal y llysoedd rhag rhoi eu barn yn lle barn yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'n ofid gan Lywodraeth Cymru bod ffocws anghymesur ar allgludo yn yr ymgynghoriad yn gyffredinol, yn ogystal â'r defnydd rhannol a chamarweiniol o dystiolaeth yn ymwneud â'r pwnc hwn, y mae peth ohoni wedi dyddio. Nid ydym yn

cefnogi unrhyw un o'r opsiynau hyn, y maent yn ymddangos wedi'u cynllunio i sicrhau y gallai hawliau rhai pobl gael eu diystyru er mwyn gwasanaethu buddiannau Llywodraeth y DU. Mae cyfyngu ar gwmpas hawliau dynol rhai categorïau o bobl yn effeithio ar wraidd egwyddorion hawliau dynol.

C25. Tra'n parchu ein rhwymedigaethau rhyngwladol, sut y gallem fynd i'r afael yn fwy effeithiol, ar y lefelau domestig a rhyngwladol, â'r rhwystrau sy'n deillio o'r Confensiwn a'r Ddeddf Hawliau Dynol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â mudo anghyfreithlon ac afreolaidd?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yn unol â'n hateb i C22, dylai'r flaenoriaeth gael ei rhoi ar barchu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU a herio camwybodaeth am y ffordd y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gweithio mewn perthynas â ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr eraill. Yn anffodus mae'r ymgynghoriad yn dueddol o wneud y gwrthwyneb.

QC26. Credwn y gallai'r Mesur Hawliau nodi nifer o ffactorau wrth ystyried pan bryd y dyfernir iawndal a faint. Pa rai o'r ystyriaethau isod ddylai gael eu cynnwys yn eich barn chi?

a) Yr effaith ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
b) I ba raddau y cafodd y rhwymedigaeth statudol ei chyflawni.
c) Hyd a lled y toriad.
d) Lle'r oedd yr awdurdod cyhoeddus yn ceisio rhoi effaith i ddarpariaethau datganedig, neu ddiben clir, deddfwriaeth.

Gwell gennyf beidio â dweud / Mae gen i ateb arall. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Nid yw'r ymgynghoriad yn darparu tystiolaeth i ategu'r farn bod problem yn y maes hwn. Felly nid yw'r un opsiwn yn briodol.

## Adran IV. Pwysleisio rôl cyfriroldebau o fwen y *Fframwaith Hawliau Dynol*

C27. Credwn y dylai'r Mesur Hawliau gynnwys rhywfaint o sôn am gyfrifoldebau a/neu ymddygiad hawlwyr, ac y gellid defnyddio'r system rwymedïau yn y cyswllt hwn. Pa un o'r dewisiadau canlynol allai gyflawni hyn orau?

Opsiwn 1: Darparu y gellir lleihau neu ddileu iawndal oherwydd ymddygiad y ceisydd sydd wedi'i gyfyngu'n benodol i amgylchiadau'r hawliad; neu

Opsiwn 2: Darparu y gellir lleihau'r iawndal yn rhannol neu'n llawn oherwydd ymddygiad ehangach y ceisydd, ac a ddylid cael unrhyw gyfyngiadau, dros dro neu fel arall, ar yr ymddygiad sydd i'w ystyried.

Opsiwn 1 / Opsiwn 2 / Dim un o'r opsiynau hyn / Gwell gennyf beidio ag ateb / Arall. Rhowch resymau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r adran hon a'r cwestiwn yn codi pryderon sylweddol am y risg o gamu'n ôl o ran hawliau yn y DU. Gallai cyfeiriadau at 'ymddygiad hawlwyr' ac 'ymddygiad ehangach' oblygiadau llawer mwy pellgyrhaeddol na'r hyn a awgrymir gan y cynigion. Mae'r cynigion yn ymddangos fel petaent yn beio'r dioddefwr a byddent yn cael effaith anghymesur ar rai grwpiau penodol o unigolion; byddent yn agor y drws i asesiad hynod wrthrychol, a fyddai'n agored i ragfarn. Gallai ymddygiad hawlwyr gael ei ddefnyddio'n strategol gan awdurdodau cyhoeddus i osgoi eu cyfrifoldebau hawliau dynol. Gyda'i gilydd, mae'r cynigion yn awgrymu diffiniad cwbl newydd o hawliau dynol sy'n mynd yn groes i'r diwylliannau hawliau mewn gwledydd datganoledig.

## Adran V. Hwyluso Ystyriaeth a deialog gyda Strasbwrg, gan warantu rôl briodol i'r Senedd

C28. Byddem yn croesawu sylwadau ar yr opsiynau uchod, ar gyfer ymateb i ddyfarniadau anffafriol o Strasbwrg, yng ngoleuni'r cymal drafft enghreifftiol ym mharagraff 11 yn Atodiad 2.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae unrhyw ymdrechion i wanhau neu anwybyddu dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop yn mynd yn groes i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a pholisi Llywodraeth y DU i hyrwyddo hawliau dynol yn rhyngwladol. Mae symud i'r fath gyfeiriad yn debygol o annog a grymuso mudiadau gwrth-hawliau dynol mewn gwledydd lle mae hawliau yn llai datblygedig neu dan fygythiad.

## Effeithiau

C29. Hoffem gael eich barn ac unrhyw dystiolaeth neu ddata a allai fod gennych am unrhyw effeithiau posibl a allai godi o ganlyniad i'r Mesur Hawliau arfaethedig. Yn enwedig felly:

Nodwch y gall tystiolaeth gael ei lanlwytho yng Nghwestiwn 30 isod.

Beth, yn eich barn chi, yw costau a manteision tebygol y Mesur Hawliau arfaethedig? (Rhowch resymau a darparwch dystiolaeth fel y bo'n briodol)

Beth yn eich barn chi yw'r effeithiau o ran cydraddoldeb ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol ym mhob un o'r opsiynau arfaethedig ar gyfer diwygio? (Rhowch resymau a darparwch dystiolaeth fel y bo'n briodol).

Sut y gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol? (Rhowch resymau a darparwch dystiolaeth fel y bo'n briodol

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd y cynigion yn cael effaith niweidiol a hirdymor ar bobl Cymru, a'r DU. Ar adeg pan ddylai'r DU fod yn arwain drwy esiampl ac yn ei gwneud hi'n glir bod hawliau dynol yn ddiymwad ac yn anostwng, mae'r cynigion hyn yn gam yn ôl ac yn tanseilio'r egwyddorion craidd sy'n sail i hawliau'r Confensiwn.

Mae Llywodraeth Cymru, yn yr ymateb hwn a thrwy'r hyn y mae'n ei wneud, wedi dangos bod ffordd wahanol, a ffordd a gaiff effaith gadarnhaol, yn hytrach na chymryd cam yn ôl.